# Podiau Gweithgarwch Chwarae

Cerdyn adroddiad

## Disgrifiad

Mae'r Pod Gweithgarwch yn rhaglen chwarae a ddyluniwyd ar gyfer ysgolion cynradd. Darperir cynwysyddion masnachol i ysgolion yn llawn adnoddau ailgylchadwy a rhoddir hyfforddiant i athrawon ar sut i ddefnyddio'r Pod Gweithgarwch ar gyfer chwarae.

## Polisi – symbylwyr a gyrwyr

- Y Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae
- Cynllun Pen-y-bont ar Ogwr Actif
- Chwaraeon Cymru – Y Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol

## Pobl – symbylwyr a gyrwyr

- Chwarae Cymru
- Bristol Scrapstore
- Ysgolion cynradd ym Mhen-y-bont ar Ogwr – arweinyddion lles/y blynyddoedd cynnar
- Cwmni cynwysyddion masnachol
- Tîm Datblygu Pobl Ifanc Actif (AYPD)

## Adnoddau/galluogwyr

- Cynwysyddion masnachol
- Rhannau rhydd
- Pecyn hyfforddiant podiau gweithgarwch
- 'Poddley' fel adnodd i annog ysgolion oedd ofn risg gan i ysgolion benderfynu ei fod yn 'fwy diogel'

## Proses

- Ymchwil i bodiau chwarae / gweithgarwch – modelau arfer da
- Ymchwilio buddiannau chwarae a chwarae bywiog
- Cyfarfodydd grŵp ffocws gyda staff lefel uwch-arweinyddiaeth ysgolion cynradd – ymgynghoriad i ganfod os oedd angen ac os oedd hwn yn brosiect dichonol
- Chwilio am gyfleoedd cyllido i ariannu'r prosiect
- Datblygu nodau a deilliannau ar gyfer y prosiect
- Ymchwilio i bartneriaid perthnasol i gefnogi ac ychwanegu gwerth i'r prosiect
- Datblygu cynllun gweithredu ar gyfer y prosiect
- Creu perthnasau gydag ysgolion cynradd
- Datblygu adnoddau i gefnogi'r prosiect
- Datblygu dulliau a mesurau effaith

- Datblygu deunyddiau hyrwyddo a marchnata
- Cynnal peilot o'r rhaglen – trosglwyddo hyfforddiant ac adnoddau
- Adolygu a gwerthuso'r peilot ac yna ei addasu i'w gyflwyno ar draws Pen-y-bont ar Ogwr
- Adolygu, gwerthuso ac addasu'r prosiect yn barhaus ble fo angen

## Heriau

- Ysgolion yn ofni risg ac yn amharod i dderbyn y prosiect
- Cyn ac ar ôl COVID-19 – diffyg lleoliadau'n darparu rhannau rhydd i'r prosiect gael ei drosglwyddo
- COVID-19 – ni allai ysgolion drosglwyddo'r rhaglen oherwydd y cyfnodau clo a gweithredu mewn 'swigod' wedi dychwelyd i'r ysgol
- Mynediad i safleoedd i ddanfon cynwysyddion masnachol, roedd rhaid cael hyd i storfeydd gwahanol ar gyfer ysgolion gydag iardiau llai o faint a mynedfeydd anodd
- Cofnodi gwir effaith – rhoddwyd tro ar ddefnyddio amrywiol ddulliau ond roedd yn anodd mesur unrhyw beth heblaw am ddefnydd ac arsylwi datblygiad sgiliau
- Golygodd cyfathrebu rhwng ysgolion a'r gwasanaeth bod cynnydd yn araf ar adegau
- Cred/cefnogaeth ysgol gyfan
- Newidiadau staff wedi i'r hyfforddiant gael ei drosglwyddo
- Amserlennu hyfforddiant o amgylch ymrwymiadau addysgu a staff cymorth/goruchwylwyr amser cinio – anodd pennu amser i weddu i'r ddau grŵp

## Allbwn/deilliannau

- Ysgolion yn defnyddio'r pod a'r rhannau rhydd yn ystod y cwricwlwm ac yn ystod gweithgareddau allgwricwlar
- Arsylwadau gan staff allweddol ynghylch datblygiad sgiliau, er enghraifft cyfathrebu, cymdeithasol, creadigol a phersonol
- Cynnydd mewn lefelau gweithgarwch corfforol
- Gwahanol grwpiau oedran a rhywiau'n chwarae gyda'i gilydd
- Ysgolion yn datblygu a gwreiddio polisïau chwarae
- Staff wedi'u hyfforddi i hwyluso sesiynau i annog plant i chwarae'n rhydd
- Agwedd ysgol gyfan
- Plant yn setlo'n well ac yn talu mwy o sylw yn ystod gwersi cwricwlwm ar ôl amser cinio ac amser chwarae
- Rhad – mae'r costau dilynol wedi cychwyn y prosiect hwn yn isel iawn trwy chwilio am rannau rhydd yn y gymuned a gyda chefnogaeth Tîm Datblygu Pobl Ifanc Actif (AYPD)
- Dim costau i blant a theuluoedd sy'n byw mewn ardaloedd o amddifadedd



Elusen cofrestredig, rhif. 1068926 © Chwarae Cymru